# HEDDWCH

Rhifyn 89 > Ebrill 2025 > CND Cymru > Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear

## 'DEWISIADAU ANODD': WIR YR?





# CYMORTH NID ARFAU

• AI a Systemau Arfau • Gwaharddiad Niwclear Byd-eang •
• Militariaeth yng Nghymru •

*A OES HEDDWCH?*



# Troi ceibiau'n gleddyfau?

Penderfynodd llywodraeth Keir Starmer nid yn unig i hybu twf trwy fuddsoddi'n drwm yn y fasnach arfau ond galluogi hyn trwy gwtogi'n llym ar y gyllideb cymorth tramor – gwariant gwerthfawr ar atal gwrthdaro. At hynny, bu gwleidyddion San Steffan yn annog sefydliadau cyllidol i roi amodau moesegol o'r neilltu wrth fuddsoddi mewn 'amddiffyn'.

## Cyfle a gollwyd

Mae chwalfa 'cynghrair y Gorllewin', am y tro cyntaf ers sefydlu CND, yn newid geo-wleidyddol daeargrynfaol. Mae'n agor y posibilrwydd y gallai'r UD dynnu'n ôl o orsafoedd tramor, rhoi terfyn ar NATO ac ar adnewyddu Trident. Amcanion tebyg fu rhai CND Cymru erioed, gan gredu bod militariaeth yn achosi parhad rhyfel yn hytrach na'i atal. Gallai hwn fod yn adeg ddelfrydol i gynnull cynhadledd y CU, gyda'r nod o ailstrwythuro diogelwch Ewrop ar sail egwyddorion heddwch, cryfhau cyfyngiadau ar arfau, a'r gyfraith ddyngarol ryngwladol.

Yn hytrach, plymiodd gwledydd Ewrop yn bendramwnwgl i mewn i ras arfau newydd a sôn byrbwyll am ehangu arfau niwclear neu roi milwyr ar lawr gwlad yn Wcráin. Fel rheol, mae rasys arfau yn llwybr brys at ryfel byd. Buom yno o'r blaen.

## Dim heddwch heb gyfiawnder

Mae'n wir i Donald Trump ysgogi sôn am heddwch, ond fel gangster sy'n honni bod rhyfeloedd tiriogaeth bellach ar ben – ar yr amod mai fe sy'n rhedeg y gymdogaeth. Trump yw arglwydd anhrefn, ag anrhaith, anwiredd ac ymffrost yn disodli diplomyddiaeth a democratiaeth. Mae ei natur narsisaidd, fympwyol, hunanol, a'i ddirmyg tuag at y gyfraith, yn troi'n orchmynion polisi ar raddfa genedlaethol a byd-eang, y cais eu gorfodi heb awdurdod.

Efallai'n wir mai baglu dros ei gareiau a wna Trump yn y pen draw, ond ein cyfrifoldeb ni, ddinasyddion cyffredin y byd, yw dal ati beunydd i godi llais ac ymdrefnu: ni cheir heddwch parhaol heb gyfiawnder.

*PENBLWYDD HAPUS*
*90eg I*
**Dr JOHN COX**




*Llongyfarchiadau, gyda dymuniadau gorau a diolch*
*1971-77*
*Is-Cadeirydd CND Cymru dros y blynyddoedd*

## *Yn y rhifyn hwn*


**Yn y penawdau** 3

**O flaen ein llygaid** 4-5
Palesteina: Sara Roberts
Ysgol babell yn Gaza: Susan Davies

**Llofruddio torfol drwy algorithm** 6-7
AI ac Arfau Marwol: Ali Lochhead

**O Fôn i Fynwy** 8-9
Newyddion Cymru

**Trafod heddwch ym Mae Caerdydd** 10
Mynd i'r afael â militariaeth, PARC

Hysbysfwrdd - **Lakenheath** 10

**Pan fo cynllunio'n 'anghyfleus'** 11
Dadreoleiddio niwclear: Linda Rogers

**Lôn faith i nunlle** 12
Gogledd Cymru Niwclear: Dylan Morgan

**Cyfalafiaeth Fentro ar ei gwaethaf** 13
De Cymru Niwclear
Brian Jones and Dylan Lewis-Rowlands

**Adolygiad** MV Ramana 14
**Teyrngedau**
Selwyn Williams, gan Robat Idris 14
Dafydd Elis Thomas, gan Jill Evans 15

**Cysylltiadau** 16



*Herio'r ymchwydd byd-eang mewn militariaeth yma yng Nghymru, fel yn y digwyddiad uchod, Bae Caerdydd, 5 Mawrth 2025.* *Gary Roberts*

# YN Y PENAWDAU

**Lleisiau pwyll**

'Yn y cyfnod hwn o ansicrwydd geo-wleidyddol, a chyfraith ryngwladol a chydweithrediad amlochrog … yn cael eu tanseilio, mae cryfder a hygrededd sefydliadau amlochrog yn hollbwysig …' Cyfarfu gwladwriaethau sy'n bartïon i Gytundeb y CU ar Wahardd Arfau Niwclear (TPNW) eto yn Efrog Newydd ar 3-7 Mawrth 2025 . Aethant yn eu blaen i ddatgan bod 'dileu arfau niwclear yn llwyr, yn wiriadwy ac yn ddiwrthdro … yn hanfodol ar gyfer diogelwch byd-eang a goroesiad dynoliaeth.' Mae 94 llofnodwr a 73 gwladwriaeth yn rhan o'r Cytundeb.

Gresynodd ICAN Ewrop (yr Ymgyrch Ryngwladol dros Diddymu Arfau Niwclear) at ymateb difeddwl gwledydd Ewrop i argyfwng Wcráin, ac annog gwleidyddion i adeiladu heddwch parhaol drwy'r TPNW.

**Dyblu ymdrechion i atal rhyfel, 2025**

O edrych yn ôl, ymddengys fod ailosod Cloc y Dydd y Farn *y Bulletin of Atomic Scientists* fis Ionawr 2025 ar 89 eiliad i hanner nos ar yr ochr optimistaidd!

Mae rhyfeloedd, gwrthdaro ac aflonyddwch gwleidyddol yn dal i lenwi penawdau newyddion ledled y byd y gwanwyn yma, o Swdan i Dde Swdan a Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo, o Dwrci i Iran, a Syria i Yemen, i Ogledd Corea, China a Taiwan.

Mae cadoediad yn rhyfel Wcráin fel pe bai allan o gyrraedd a chwalwyd un Palestina eisoes yn ddigosb gan lywodraeth dde eithafol Israel. Mae safonau dwbl yn rhemp, diplomyddiaeth ben i waered, y cyfryngau'n gwyrdroi. Ymddengys y cred Trump mai ef yn unig sy'n pennu trefn y byd. Mae'r UD wedi cychwyn rhyfel masnach ansefydlog, di-ddal, gan ddirmygu ffrind a gelyn fel ei gilydd.

**'Dim Trident' medd Barrow-in-Furness**

**Ddydd Sadwrn 22 Mawrth cynhaliodd cenhedloedd a rhanbarthau CND Prydain brotest drawiadol ac amserol yn Barrow-in-Furness, gan alw am roi'r gorau i raglen Trident – 'Buddsoddwch mewn Heddwch, Nid Arfau!'**

Mae 'braw-ataliaeth' niwclear yn amlwg yn y newyddion eto. Bu Gwlad Pwyl yn galw ar yr UD i leoli arfau niwclear ar ei ffin ac awgrymwyd newid y modd y lleolir arfau niwclear Ffrainc a Phrydain hefyd. Ar 26 Chwefror ailadroddodd y WA yr hen fyth bod arf braw-atal y DU yn annibynnol. Yn strwythurol mae'n ddibynnol ar yr UD, ac yn weithredol mae o dan fygythiad mewn cymaint o ffyrdd. Ar 13 Mawrth ymosododdd Anas Sawar, arweinydd Llafur yr Alban, ar lywodraeth yr SNP am ei gwrthwynebiad i gadw arfau niwclear ar afon Clud. Ac eto, mae cost y llongau tanfor dosbarth Dreadnought newydd a'u harfau niwclear yn syfrdanol, gyda bil terfynol y rhagwelir y bydd yn £205 biliwn.



# O FLAEN EIN LLYGAID NI



*Y rhyfel diddiwedd, ble mae parafeddygon yn cael eu lladd gan yr IDF.*

Fel offeiriad yn yr Eglwys yng Nghymru, dwi'n credu'n gryf yn un o'n prif orchmynion – 'na ladd'. Mae'n syml, yn ddi-flewyn ar dafod, does 'na ddim lle i chwarae o gwmpas gyda 'heblaw am...'. Na ladd. Yn ein hanes truenus fel dynoliaeth, mae rhyfel, trais a gwrthdaro wedi codi nifer o weithiau, tu hwnt i'n gallu i gyfrif y bywydau colledig. Rydym newydd nodi'r 80 mlynedd ers rhyddhau'r gwersylloedd yn Auschwitz-Birkenau a nawr mae'r olygfa o hil-laddiad ar ein sgriniau unwaith eto. Mor hawdd yw anghofio ein haddewidion 'byth eto'.

## Teyrnasiad o arswyd

Ond mae 'na gadoediad yn Gaza, meddech? (*wedi ei ddiweddu gan Israel bellach, gol.*) Oes, ar bapur. Cadoediad ble mae'r IDF wedi parhau i dargedu a lladd dinasyddion Gaza a'r Llain Orllewinol... yn ferched, yn blant, yn henoed. Yn ddyddiol mae milwyr yn defnyddio 'snipers' i ladd pobl ddiniwed, gyrru teuluoedd allan o'u cartrefi, meddiannu eiddo a restio bobl heb achos a'u cipio a'u carcharu. A hyn i gyd heb unrhyw gerydd gan arweinwyr y byd, na'r wasg boblogaidd.

A oes heddwch? Nag oes, dim yn Gaza, nac yn y Llain Orllewinol – a hyn yng nghanol mis sanctaidd Islamaidd Ramadan a'r Grawys Gristnogol.

Nid absenoldeb rhyfel yn unig yw heddwch, ond rhywbeth mwy a dyfnach na thawelwch rhag y gynnau a'r rocedi. Heb sail gadarn o gyfiawnder bydd pob cadoediad, neu heddwch dros-dro, yn torri'n deilchion unwaith eto a phoblogaeth gaeth Gaza a'r tiroedd dan feddiant a'r Llain yn derbyn y pris am ein methiant ni yn eu cyrff eu hunain – ac yn magu cenhedlaeth newydd o wrthryfelwyr sy'n gweld dim dewis ond codi arfau er mwyn mynnu eu rhyddid.

## Tawelwch byddarol

Mae'r tawelwch llethol gan ein arweinwyr gwleidyddol a'r wasg poblogaidd ynglŷn â'r sefyllfa ym Mhalesteina yn gywilydd ac yn dwyn gwarth ar ein honiadau ein bod yn ceisio heddwch a hynny yn ddi-duedd.

Nid yw'n bosib adeiladu heddwch, na chyfiawnder, tra'n chwarae'r gêm – 'mae o mor gymleth/mae nhw cyn waethed a'i gilydd/mae'n rhaid i ni fod yn gytbwys wrth farnu'. Mae dewis peidio â dweud na gwneud rhywbeth yn ddewis ynddo'i hun a thawelwch yn drais – 'silence is violence' chwedl y dywediad. Mae hyder Israel y caiff hi ymddwyn yn groes i bob cyfraith a dealltwriaeth o gyfiawnder rhyngwladol wedi'i seilio ar y ffaith ei bod hi wedi llwyddo i wneud hynny am ddegawdau, i gyd yn enw'i 'heddwch a diogelwch' ei hun – a'r gwledydd eraill yn cydymffurfio yn wylaidd â'i pholisiau hiliol ac yn anwybyddu dioddefaint y Palesteiniaid.






*Hwlffordd: Cyd-sefyll gyda Phalesteina* *Hetfield Hellana*

**Ar sail cyfiawnder**

**Mae hi'n wythnos ers i Israel hatal bob cymorth rhag dod i fewn i Gaza** – dim bwyd, dim dŵr, dim meddygyniaeth, ac ers ddoe dim trydan. Mae'r ffaith bod gwlad yn medru rheoli bywyd ei ddinasyddion fel hyn yn enghraifft glir o'r sefyllfa – nid heddwch o unrhyw fath mo hyn, ond tacteg sylfaenol yn y rhyfel parhaol a'r hil-laddiad a'r 'ethnic cleansing' sy'n digwydd o flaen ein llygaid.

Os yr ydym am ddatgan ein bod yn chwilio am 'heddwch', yna bydd rhaid wynebu yn hollol onest na fedrwch wneud hynny trwy wadu hawliau'r Palesteiniaid i fyw yn eu gwlad eu hunain, a bod ideoleg Israel yn anghydnaws â dyfodol gwell i'r Israeliaid a'r Palesteiniaid. Mae lleisiau pobl gyffredin ar draws y byd wedi codi'n uwch ac yn uwch dros y 17 mis diwethaf a'r nifer o wledydd sy'n fodlon galw gweithredoedd Israel yn anghyfreithlon yn tyfu. Mae'n hollbwysig ein bod ni i gyd yn rhoi pwysau ar ein harweinwyr a defnyddio bob dull heddychlon sydd ganddom i fynnu bod heddwch yn cael ei adeiladu, a hynny ar sail cyfiawnder.

**SARA ROBERTS**

# Cefnogwch yr ysgol babell yn Gaza

Ers mis Hydref 2023, bu **Cyfeillion Gorllewin Cymru Palesteina** yn cynnal gwylnos heddwch wythnosol yng Nghaerfyrddin. Drwy hynny y sefydlwyd cysylltiadau â theulu meddyg lleol, a gawsai ei fagu yn Gaza. Roedd ei dylwyth yn dal yno, ond wedi'u dadleoli ac yn byw mewn pebyll. Gofynnodd ei nai, gweithiwr cymorth hyfforddedig, a allem helpu i sefydlu 'ysgol babell' yn yr ardal. Roedd eu plant heb brofi unrhyw normalrwydd na chael addysg ers blwyddyn a mwy.

Ymrwymwyd i ariannu ysgol babell ar gyfer 50 o blant. Agorodd Ysgol Sumud ddydd Nadolig 2024, a daeth dros 500 o blant yno gyda'u teuluoedd yn gofyn am le. Trwy gynnig addysg ran-amser yn unig, gallodd yr ysgol gynnig llefydd i 120 o blant.



*Enw'r Ysgol yw Sumud, gair Arabeg sy'n golygu dyfal-barhad a gwytnwch – rhywbeth y magodd y Palestiniaid lawer ohono yn y 75 mlynedd diwethaf.*

Yn ystod y 'cadoediad' dechreuodd miloedd o bobl a gawsai eu dadleoli symud yn ôl adref. Symudodd athrawon Sumud yn ôl hefyd i ardal Alshejayia Dinas Gaza. Er gwaethaf problemau anferth fe lwyddon nhw i ail-agor yr ysgol ar y 19 Chwefror 2025. Fodd bynnag, mae chwalu'r cadoediad bellach wedi ei gwneud hi'n rhy beryglus i gadw'r ysgol ar agor. Anodd iawn rhagweld beth fydd y sefyllfa yn y dyfodol. Serch hynny, credwn ei bod yn bwysig gwneud yr hyn a allwn NAWR.


***>>> Da chi, rhoddwch i Apêl Ysgol Gaza Sumud o'r wefan hon***

*https://westwalesfriendsofpalestine.wordpress.com/*

**SUSAN DAVIES**

# LLOFRUDDIO TORFOL DRWY ALGORITHM






**"Mae peiriannau sydd â'r pŵer a'r disgresiwn i ddwyn bywydau heb gyfranogiad dynol yn wleidyddol annerbyniol, yn foesol wrthun a dylent gael eu gwahardd gan gyfraith ryngwladol."**

**Ysgrifennydd Cyffredinol y CU, António Guterrres**

Mae Systemau Arfau Ymreolus Marwol (*Lethal Autonomous Weapon Systems* – LAWS) yn defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) i nodi, dethol a lladd targedau dynol a dinistrio seilwaith heb ymyriad dynol. Mae'r penderfyniad i danio yn cael ei wneud gan algorithm yn unig. Ni all algorithm ddeall gwerth bywyd dynol na deall dyletswydd moesol. Mae'n ufuddhau i'r cyfarwyddyd a roddir iddo. Os mai creu cyflafan o bentref cyfan yw'r cyfarwyddyd, fe wna hynny yn ddibetrus.

Dogfenwyd defnyddio LAWS yn gyntaf mewn adroddiad 2021 gan Banel Arbenigwyr y CU ar Libya, lle'u defnyddiwyd i hela lluoedd a oedd yn cilio. Ers hynny, bu adroddiadau lu am heidiau a systemau arfau ymreolus eraill yn cael eu defnyddio ar feysydd brwydr ledled y byd. Mae'n debygol iawn i arfau dan gyfarwyddyd AI gael eu defnyddio yn Gaza, lle mae cymaint o gyrchoedd marwol yr honnir eu bod wedi eu 'targedu' wedi lladd anymladdwyr yn y pen draw.

### Pwy yn union sy'n atebol?

Bob dydd, fe welwn y Gyfraith a Chytundebau Rhyngwladol yn cael eu diystyru'n llwyr yn enw 'hunan-amddiffyn' a 'diogelwch'. Pwy sy'n gyfrifol os bydd arf ymreolus yn lladd sifiliaid, yn dinistrio ysbytai? Mae'n ymddangos na all y drefn ryngwladol ddwyn troseddwyr i gyfrif mewn unrhyw ffordd ystyrlon. Pwy ddylai fod yn gyfrifol – y rhaglennydd, y prif swyddog, y datblygwr meddalwedd, neu'r llywodraeth?

## Llinell Amser AI

- **1949-50** Alan Turing yn datblygu prawf i ganfod a all cyfrifiadur fod â 'deallusrwydd dynol'.
- **1956** John McCarthy, gwyddonydd cyfrifiadurol a gwybyddol, yn bathu'r term 'deallusrwydd artiffisial'.
- **1957** Frank Rosenblatt yn dylunio'r rhwydwaith niwral cyfrifiadurol cyntaf, yn efelychu'r ymennydd dynol.
- **1958** Adran Amddiffyn yr UD yn ffurfio'r Asiantaeth Prosiectau Ymchwil Uwch i hwyluso ymchwil a datblygiad strategaethau milwrol a diwydiannol.
- **1960au** Adran Amddiffyn UDA yn dechrau hyfforddi cyfrifiaduron i ddynwared rhesymu dynol sylfaenol.
- **1970au-90au** AI yn cael ei ddatblygu'n gynyddol ym mhob maes, meddygol, diwydiannol a milwrol.
- **1997** Uwchgyfrifiadur Deep Blue IBM yn trechu pencampwr gwyddbwyll y byd, Garry Kasparov.
- **2007** Noel Sharkey yn rhybuddio am "ras arfau gynyddol ymhlith gwledydd uwch-dechnolegol i ddatblygu llongau tanfor, jetiau rhyfel, llongau rhyfel a thanciau ymreolus a all ddod o hyd i'w targedau eu hunain a defnyddio grym treisgar heb gyfranogiad penderfyniadau dynol ystyrlon".
- **2014** Adran Amddiffyn UDA yn dadorchuddio 'Third Offset Strategy' sy'n dadlau y bydd datblygiadau carlamus AI yn diffinio'r genhedlaeth nesaf o ryfel.
- **2015** Steven Hawking, Elon Musk a Steve Wozniak (Apple) a 3,000 o ymchwilwyr mewn AI yn galw am wahardd datblygu arfau ymreolus.
- **2018** Google yn addo peidio â datblygu arfau AI ac yn rhyddhau polisi AI newydd, ond dywed na fydd yn gweithio gyda'r fyddin.

# ARFAU YMREOLUS MARWOL




*Protestiadau yn y Cenhedloedd Unedig yng Ngenefa – ond ers 2013 cafodd y gefnogaeth i Gytundeb ei pharlysu i bob diben*

### Ymdrechion i reoleiddio

Bu Cytundeb y CU ar Rhai Arfau Confensiynol (CCW) yn trafod arfau ymreolus ers 2013, ond erbyn 2021 roedd Cynhadledd Adolygu CCW yn dal heb allu dechrau negydu protocol hyd yn oed. Mae gan CCW 127 o lofnodwyr o blaid cytundeb cyfreithiol ar arfau ymreolus, gan gynnwys China, ond mae 12 o wledydd heb fod yn ei gefnogi, yn cynnwys Rwsia, y DU ac UDA. Gan fod y cytundeb yn gweithredu ar sail consensws, mae'r rhai nad ydynt yn ei gefnogi yn rhwystr i unrhyw gynnydd. Yn gynyddol mae Cynadleddau Rhanbarthol brys yn galw am reoleiddio.

*Milwyr a pheiriannau, pwy sy'n gyfrifol?*



### Geiriau gwych – neu elw ras arfau?

Ym mis Chwefror 2025, cododd Alphabet, rhiant-gwmni Google, ei waharddiad ar ddefnyddio AI i ddatblygu arfau ac offer gwylio. Gollyngodd yr adran a oedd yn gwahardd ceisiadau a oedd yn "debygol o achosi niwed" a chynyddu ei gyllideb AI o 29 y cant.

Yn ôl yn 2018 mabwysiadodd Senedd Ewrop gynnig yn galw am drafodaeth frys ar 'waharddiad rhyngwladol ar systemau arfau sydd heb reolaeth ddynol dros y defnydd o rym'. Ac eto, yn 2024 cyflwynwyd rhai eithriadau i'r rheoliad. Mae lluoedd arfog, waeth beth fo'r math o endid sy'n cyflawni'r gweithgareddau hynny, bellach wedi'u heithrio (fel y maent yn wir o dan Gytundeb Hinsawdd Kyoto). Dim atebolrwydd a dim craffu.

### I mewn i'r gwactod moesol

Mae darogan gwaethaf ffuglen wyddonol wedi ei wireddu. Mae 'Uwch' AI yn dod a does gan neb yr un syniad o'i bŵer ac a all unrhyw beth ei atal wedi iddo gael ei ryddhau. Pwy wedyn sy'n penderfynu sut mae arfau'n cael eu defnyddio, pwy yw'r 'gelyn' neu pwy sydd angen eu difodi? Gall unigolion mewn pŵer a chwmnïau byd-eang benderfynu tynged y byd. Mae'r Cenhedloedd Unedig a'r cyrff rhyngwladol eraill wedi colli pob dylanwad.

**Risg isel, cost isel, pwy sydd angen byddin ddynol mwyach? Neu warchodwyr ffiniau? Mae arfau AI yn dad-ddyneiddio gwrthdaro ac yn diddymu penderfynu ar sail foesol. Gallai'r targedau gynnwys protestwyr, ymfudwyr, anghydffurfwyr, sifiliaid, chi neu fi. Felly mae'n rhaid i ni fynnu gwaharddiad a deddfau sy'n rhwymo'n gyfreithiol. Gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth a sicrhau bod gan y byd ddyfodol.**

**ALI LOCHHEAD**

# O FÔN I FYNWY
## MONA TO MONMOUTH



### Eisteddfod 2025 a Hiroshima

Bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yr haf yma yn dod i **Wrecsam**, o 2-9 Awst. Mae'r safle yn ardal **Is-y-coed**, tua 8 km o ganol y ddinas. Gallwch ddod o hyd i CND Cymru a sefydliadau ymgyrchu heddwch eraill fel Cymdeithas y Cymod ar y Maes yn y Babell Heddwch. Bydd digwyddiadau a thrafodaethau i nodi 80 mlynedd ers y bomiau atomig yn Hiroshima a Nagaski ym 1945. Rhowch wybod i ni os ydych yn trefnu unrhyw ddigwyddiad coffa lle rydych chi.

### Cysylltu'r smotiau ...

Ar 24 Chwefror 2025 gollyngwyd baneri yn gynnar yn y bore o bedair pont ar hyd yr A55, gyda phrotest yn **RAF Y Fali, Ynys Môn** i ddilyn, fel rhan o weithred ryngwladol y galwyd amdani gan World Beyond War. Y nod oedd tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng RAF Y Fali a hil-laddiad Gaza. Un o'r cwmnïau sydd wedi'i



*Protest Elbit Systems yn RAF y Fali*

leoli yn RAF y Fali yw Affinity Flying Services, sy'n hyfforddi peilotiaid. Mae hon yn bartneriaeth 50-50 rhwng cwmni KBR o'r UD ac Elbit Systems UK sy'n eiddo i Israel. Mae Elbit yn gwneud bomiau, taflegrau, dronau, tanciau a hofrenyddion. Mae eu harfau wedi galluogi lladd cymaint o filoedd o sifiliaid yn Gaza a'r Lan Orllewinol. Crogwyd dillad y plant ar ffens y llain glanio tra bod jetiau'n rhuo uwchben.



*Porthaethwy*



*Capenhurst*

### *Fukushima – heb ei anghofio yng Nghymru*

Ar 11 Mawrth 2011 arweiniodd tswnami at doddi tri chraidd adweithydd mewn tridiau yn ffatri ar safle Fukushima Daiichi yn Japan. Yn y misoedd a'r blynyddoedd dilynol, adeiladodd ymgyrchwyr gwrth-niwclear yng Nghymru ac yn Japan gynghreiriau cryf, gyda chyn-brif weinidog Japan, Naoto Kan, yn annerch rali yn Wylfa. Nid yw'r lobi ynni niwclear wedi rhoi'r ffidil yn y to, felly ni wnawn ninnau ychwaith. Ar 11 Mawrth 2025 ymgasglodd cefnogwyr CADNO, PAWB ac CND Cymru ar **Bont Menai** i gefnogi'r ymgyrch bresennol a'n ffrindiau yn CyDd Japan.

Cafodd pen-blwydd Fukushima ei gofio hefyd dros y ffin yn Swydd Gaer, lle bu Radiation Free Lakeland ac eraill yn picedu gwaith cyfoethogi niwclear Urenco yn **Capenhurst**. Ymunwyd â nhw gan Elfed Jones a soniodd am fygythiadau niwclear i **arfordir Gogledd Cymru**.

## Trafodaeth niwclear wyneb yn wyneb

Ar 6 Mawrth cynhaliwyd cyfarfod yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn **Llandudno** rhwng grwpiau gwrth-niwclear (a gynrychiolwyd gan Linda Rogers a Robat Idris) a Rebecca Evans, AoS Gŵyr ac Ysgrifennydd Cymru dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ers mis Medi diwethaf, ynghyd â rheolydd prosiectau ynni niwclear. Ar ôl blynyddoedd o gael ein cadw hyd braich i ffwrdd, roedd yn dda iawn cael trafodaeth uniongyrchol a chyfnewid barn o'r diwedd, a gallu gadael dogfennau a phapurau i'w hystyried ganddi.

## 'Cyfraith nid rhyfel' yn dod i Storiel

Mae hanes deiseb heddwch 1923-24 i fenywod America oddi wrth fenywod Cymru, yn galw am 'Gyfraith nid Rhyfel', wedi cydio yn nychymyg y cyhoedd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae arddangosfa newydd sy'n agor ym mis Ebrill yn Storiel ym **Mangor** yn cynnwys hanes y gwragedd hynod hyn, a'r rhai a gymerodd ran yn y daith gerdded o Benygroes i Hyde Park yn Llundain ym 1926. Mae'r arddangosfa'n cynnwys deunydd a roddwyd ar fenthyg gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, Archifau Gwynedd a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru.

Mae *Merched yn Hawlio Heddwch* yn Storiel Bangor o 12 Ebrill tan 21 Mehefin 2025. *https://www.storiel.cymru/cymru/whats-on/merched-yn-hawlio-heddwch/*

## UNA Menai

Gydag argyfwng y gyfraith ddyngarol ryngwladol o dan y chwyddwydr, bu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cangen **Menai** o Gymdeithas y CU yn trafod ymwybyddiaeth o'r CU a hawliau plant ymhlith ieuenctid heddiw, gyda chymorth dau ddisgybl chweched-dosbarth lleol. Cytunwyd i wella cysylltiadau ag ysgolion lleol, i drafod materion cwricwlaidd ac i adnewyddu cysylltiadau â Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru.

## Cymru-Palesteina

Mae'r hil-laddiad ymddangosiadol ddiddiwedd yn Gaza a'r Lan Orllewinol wedi dwysáu ers i Israel ddymchwel cam cyntaf y cadoediad. Ym **mhob cwr a chornel o Gymru** dwysáu a wnaeth y gwrthwynebiad i'r arswyd hwn hefyd. Nid yw'r gwylnosau, gorymdeithiau, protestiadau a chodi arian wedi llaesu dim, mae'r cerddorion wedi chwarae am ddim, mae'r corau wedi canu, mae ffilmiau wedi'u dangos, lawer gormod i'w crybwyll … Ac mae'r rhai sy'n mynd heibio wedi canu cyrn eu ceir. Rhaid parhau â'r pwysau dros heddwch a chyfiawnder.







*Sir Benfro, Abertawe, Caernafon.*

# TRAFOD HEDDWCH YM MAE CAERDYDD



*Jim Scott o ymgyrch PARC yn siarad â'r cyfryngau*

Ddydd Gwener 5 Mawrth 2025 daeth ymgyrchwyr heddwch o sawl rhan o Gymru i Adeilad y Pierhead ym Mae Caerdydd ar gyfer digwyddiad a drefnwyd gan Sam Bannon ar ran *Heddwch ar Waith*. Gwahoddwyd Aelodau o'r Senedd o dan nawdd Heledd Fychan AoS, er mwyn tynnu sylw at afael cynyddol **Militariaeth yng Nghymru**. Ceid stondinau ac areithiau a chyflwyniad gan ymgyrch **PARC yn erbyn DARC**, sy'n arwain ymgyrch wych yn erbyn prosiect radar gofod-dwfn yr UD ym Mreudeth yn Sir Benfro.

Cafwyd anerchiadau byr hefyd gan Gymdeithas y Cymod a'r Crynwyr yng Nghymru, Stop the War Caerdydd, a Chymdeithas Cenhedloedd Unedig Caerdydd. Daeth yr achlysur i ben â chynulliad awyr agored a rhyddhawyd colomennod heddwch – gweler y lluniau ar t3 a 15!

## YR HYSBYSFWRDD Da chi, hoffem glywed gennych!

Anfonwch e-bost, barn, adroddiad, awgrymiadau, manylion digwyddiadau i **phil_steele@btinternet.com** gyda 'H90 ed' yn y blwch pwnc. Cadwch o'n fyr a rhowch eich cyfeiriad neu gyswllt e-bost!

Mae'r ymgyrch yn erbyn dychweliad arfaethedig bomiau niwclear yr UD i faes awyr Lakenheath yn Suffolk yn mynd rhagddi ar garlam. Os gallwch alw draw eich hun, neu drefnu cludiant o Gymru, yna Ebrill yw'r mis i chi. Lledaenwch y gair, a'r undod.

Cyngrair Lakenheath Dros Heddwch

**Gwersyll Heddwch**

**14eg - 26ain Ebrill 2025**

**Mwy Na Dim Ond Protest!**

**Diwrnodau Thema**

**Llun 14eg** – Seremoni Agoriadol

**Mercher 16eg** – Dydd Corau a Chantorion Gwleidyddol a Phrotest

**Iau 17eg** – Dydd Menywod Greenham

**Gwener 18fed** – Dydd yr Amgylchedd

**Llun 21ain** – Dydd Troseddau Rhyfel a Hil-laddiad

**Mawrth22ain** – Dydd Democratiaeth

**Mercher 23ain** – Dydd Ffydd

**Iau 24ain** – Cynhadledd Heddwch Ryngwladol

**Sadwrn 26ain** – Dydd Gwarchae

Ar y dyddiau hyn, ceir gweithdai a gweithredoedd yn seiliedig ar y pynciau hyn. Gweler y wefan am fanylion

https://lakenheathallianceforpeace.org.uk

# PAN FO CYNLLUNIO'N 'ANGHYFLEUS'

**Anghyfleustra i lywodraethau yw cael pobl y maent yn eu cynrychioli yn gwrthwynebu eu polisïau, sef, yn yr achos hwn, adeiladu gorsafoedd pŵer niwclear newydd. Anghyfleustra pellach yw'r adegau y bydd arolygiaethau cynllunio, a grewyd i oruchwylio gweithredu'r broses briodol o ran dilyn rheoliadau ac effaith seilwaith o'r fath ar gymuned leol, hefyd yn gwrthwynebu'r polisïau hyn.**

### Blocio'r blocwyr?

Mae Keir Starmer wedi addo rhwystro'r 'blocwyr'; mae'n beio'r bobl sy'n protestio yn erbyn Sizewell C am y gorwario enfawr a'r oedi a gyda'r prosiect. Rhoddwyd caniatâd datblygu ar gyfer yr orsaf niwclear arfaethedig hon *er gwaethaf* cyngor yr arolygwyr y dylid gwrthod y prosiect ar sail amgylcheddol, yn cynnwys diffyg cyflenwad dŵr angenrheidiol ar gyfer gweithrediad diogel yr orsaf.

Cynghorodd arolygwyr cynllunio hefyd na ddylai Wylfa Newydd fynd yn ei blaen. Cyhoeddwyd eu hadroddiad ar ôl i Hitachi dynnu'n ôl o'r prosiect, pan nad oedd digon o arian llywodraeth y DU ar gael ar gyfer y cwmni, gan arwain at fethiant y datblygiad. Roedd yr arolygwyr cynllunio o'r farn y dylai eu rhesymau dros wrthod y prosiect gael eu gwneud yn gyhoeddus. Roedd yn waith darllen diddorol.

### Ar garreg y drws

Cawsant bod effeithiau niweidiol i'r ardal a'i phobl yn drech nag unrhyw fantais. (Nid yw'r bobl hyn yn wrth-niwclear. Yn hanesyddol, maent wedi hwyluso datblygiadau o'r fath). Roedd yr effeithiau hyn yn cynnwys effeithiau andwyol ar yr economi leol, tai a seilwaith, twristiaeth ac iaith a diwylliant Cymru. Effeithid hefyd ar iechyd a lles. Byddai'r prosiect hefyd yn torri cyfreithiau amgylcheddol a mesurau rheoleiddio cynefinoedd.

Mae'n ddiddorol sut a pham y cododd y cyfryngau agwedd neilltuol ar yr adroddiad cynllunio hwn, sef yr effaith ar y Gymraeg. Cawsom ein gwahodd i wfftio'r fath syniad y dylai hyn fod yn broblem o gwbl. Fe'n gwahoddir hefyd i gwestiynu dilysrwydd cynllunio o gwbl. Fe'n gwahoddir i gael gwared ar yr anghyfleustra o fod â chynllunwyr.

### Tanseilio democratiaeth

Yn amlwg, bydd dileu neu danseilio'r broses gynllunio yn arwain at ddiffyg atebolrwydd ac yn cael gwared ar broses ddemocrataidd. Mae'n agor y ffordd, unwaith eto yn yr achos hwn, i ddinistrio tir a chymunedau yn rhagataliol, i baratoi ar gyfer adeiladu seilwaith niwclear peryglus nad amcangyfrifwyd ei gost, gyda'i etifeddiaeth o wastraff a dinistr amgylcheddol. Ymddengys fod rheolau cynllunio yn eu crynswth o dan fygythiad. Nid yw eu hanwybyddu, fel y mae llywodraeth y DU wedi'i wneud yn achos Sizewell C, yn edrych yn dda, nac yn helpu i ddenu buddsoddwyr. Pam stopio wrth reolau ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear? Pam bod â rheolau o gwbl?

**LINDA ROGERS**



*Ymddiriedolaeth yr Afonydd*

## *Hinkley C a'r pysgod*

*Amcangyfrifwyd y gallai'r atalydd pysgod acwstig y cytunwyd arno'n wreiddiol ar gyfer Hinkley C achub bywydau miliynau o bysgod bob blwyddyn, yn ecosystem allweddol ond fregus aber afon Hafren ac anfonydd De Cymru. Gwawdio'r prosiect a wnaeth Keir Starmer, gan ddweud 'basai'n dda gen i allu dweud mod i'n cellwair'.*

# LÔN FAITH I NUNLLE

Mae dros dwy flynedd wedi mynd heibio ers i ddau o gynrychiolwyr PAWB Ymddangos ger bron ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cymreig yn San Steffan ar ynni niwclear yng Nghymru. Hefyd yn bresennol yn cyflwyno tystolaeth o blaid datblygu ynni niwclear oedd cwmnïau GE Hitachi a Bechtel Westinghouse. Datganodd y ddau gwmni eu bod yn awyddus i ddatblygu adweithyddion niwclear mawr o bosibl yng Nghymru. Mae'n werth cofio i Toshiba Westinghouse fynd yn fethdalwr yn 2017. Dyma ni yn 2025, ac nid oes unrhyw arwydd o gwbl y gallai GE Hitachi na Bechtel Westinghouse, heb gymorthdal cyhoeddus enfawr gan lywodraeth Starmer, freuddwydio am wireddu eu huchelgais niwclear ffôl.

Cwmni arall a achosodd gyffro i gyn-aelod seneddol Ynys Môn, Virginia Crosbie, oedd Kepco o Dde Corea a ymwelodd â Llundain ddwy flynedd yn ôl i gynnal trafodaethau am godi eu hadweithydd niwclear hwy ym Mhrydain. Roedd Mrs Crosbie yn pwysleisio bod Kepco wedi codi dau adweithydd niwclear yn yr Emiradau Arabaidd Unedig o fewn cyllideb ac amserlen. Nid oedd hynny'n wir. Yr unig reswm y cwblhawyd y gwaith oedd bod arian cyhoeddus yr EAU wedi talu $16 biliwn o gost $24 biliwn y prosiect oedd ag amcanbris gwreiddiol o $10 biliwn.

Felly, nid oes unrhyw ragolwg o gwmni sy'n barod i fuddsoddi yn y pwll niwclear diwaelod ar safle'r Wylfa. Mae gwaith ar Hinkley Point C yn mynd i barhau hyd o leiaf 2031 ac adroddwyd yn ddiweddar bod angen £5 biliwn arall arnynt i allu cwblhau'r prosiect hwnnw. Mae holl weithlu medrus niwclear gwledydd Prydain yn Hinkley ar hyn o bryd, a phe byddai'r prosiect yn cael ei gwblhau, byddai'r gweithlu wedyn yn symud i Sizewell, lle mae EdF wedi cael eu dewis i godi dau adweithydd arall. Dywed y Gymdeithas Ynni Niwclear mai gweithlu ar gyfer un prosiect niwclear ar y tro sydd gan wledydd Prydain. Felly gallai prosiect Sizewell gadw'r gweithlu hwnnw'n brysur hyd tua 2050.

Mae'r siarad mwyaf gan lywodraeth Starmer ar hyn o bryd am adweithyddion modiwlaidd a disgwylir cyhoeddiad ym Mehefin pa ddau gwmni niwclear fydd yn cael eu dewis o blith Rolls Royce, GE Hitachi, Holtech UK a Westinghouse i ddatblygu eu cynlluniau ymhellach. Mae'r ffefryn, sef Rolls Royce a'u hadweithydd modiwlaidd 470MW mawr yn ffraeo gyda'u partneriaid yn Ngwlad Tsiec ar hyn o bryd. Mae'r rheini yn awyddus iawn i gwmni Skoda o'r wlad honno gael y cyfle i ddefnyddio'u technoleg hwy yn yr adweithydd modiwlaidd yno. Mae Rolls Royce ar y llaw arall yn meddwl y byddai defnyddio technoleg o Dde Corea yn ateb eu pwrpas yn well. Hynny yw, byddai'n rhatach.

**Felly, wrth i ni edrych ymlaen, bydd y sŵn mwyaf yn digwydd ynghylch y gystadleuaeth i godi adweithyddion modiwlaidd. Cam arall ar y daith fydd hynny ond bydd yr un problemau ynghylch cost, cynhyrchu gwastraff ymbelydrol gwenwynig, perygl damweiniau a gollyngiadau, a'r cysylltiad agos rhwng niwclear sifil a milwrol yn parhau.**

**DYLAN MORGAN**



*Hen ddigon o'r ffwlbri niwclear yma!* *Ynys Môn 2025*

# CYFALAFIAETH FENTRO NIWCLEAR AR EI GWAETHAF: LLYNFI AND LAST ENERGY

**Fis Tachwedd 2024, cyhoeddodd Last Energy, cwmni cyfalaf mentro niwclear o'r UD, gynlluniau ar gyfer adweithyddion niwclear yn nghyn-orsaf bŵer glo Llynfi, rhwng Pen-y-bont a Maesteg. Dydy'r cwmni erioed wedi adeiladu na gweithredu gorsaf bŵer niwclear yn unman yn y byd...**

Yn wreiddiol, cyhoeddodd Last Energy y byddai'r Adweithyddion Modiwlar Bach yn fenter gyfan gwbl breifat o ran perchnogaeth, cyllido a gweithrediad, yn cyflenwi trydan yn uniongyrchol i ddiwydiannau lleol. Awgrymwyd wedyn y gallent gyflenwi cartrefi ac yna, pan ffrwydrodd AI i amlygrwydd, y gallai'r safle fod yn lle posib ar gyfer canolfan ddata AI. Mae'r cwmni bellach wedi dechrau hawlio defnydd domestig eto. Mewn gair, maent yn chwilio am droedle, nid ceisio datrys problem neu gyflenwi angen sy'n bod eisoes.

Aeth y cwmni ati mewn modd gwreiddiol iawn gyda "Phrosiect Ynni Glân Llynfi". I ddechrau, ceisiodd Last Energy osgoi neu ochrgamu'r broses drwyddedu a rheoleiddio arferol a fwriedir i sicrhau cydymffurfiad diogelwch er mwyn gallu bod ar y safle erbyn 2026. Ymddengys bod y cyrff rheoleiddio yn fodlon cydsynio yn hyn o beth, gyda Last Energy yn rhedeg drwy'r broses trwyddedu safle ar garlam yn ddiweddar, er nad oes sôn hyd yma bod ei ddyluniadau hyd yn oed yn bodloni gofynion yr Awdurdod Rheoleiddio Niwclear.

Ni ddaeth unrhyw dogfennaeth i law, ond mae adroddiadau a'r ychydig gofnodion sydd ar gael yn awgrymu mai defnydd y safle yn ei hanfod fydd creu'r hyn a elwir gan Last Energy yn 'fatris niwclear' – y byddem ni'n eu galw'n adweithyddion niwclear – a fydd, ar derfyn eu hoes, yn cael eu storio dan ddaear ar y safle nes i'r safle gael ei ddatgomisiynu.

### Beth am y gwastraff?

Gyda 4 adweithydd yn gweithredu ar y tro, pob un â chylch bywyd o ryw 6 blynedd, bwriedir i'r safle fod yn cynhyrchu trydan am 42 mlynedd, felly gallem fod yn delio â mwy na 28 o adweithyddion niwclear wedi'u disbyddu – gwastraff ymbelydrol ac angen tynnu'r tanwydd ohonynt, eu datgomisiynu a chael gwared â nhw pan ddaw oes y prosiect ben.

Nid ein hachub rhag newid hinsawdd, na hyd yn oed darparu ynni glân mo bwriad Last Energy a chwmnïau tebyg – ond gwneud elw. Pan ddaw cynhyrchu trydan i ben, daw'r elw i ben, ac mae'r costau datgomisiynu yn dechrau. Mae economeg a phrofiad yn y gorffennol yn awgrymu yr â gorsaf Llynfi yn fethdalwr, gyda Last Energy (yn rhyngwladol) wedi sicrhau ei fod wedi'i wahanu'n gyfreithiol oddi wrth yr orsaf – gan adael y bil datgomisiynu i ni, fel yn enghraifft ddiweddar safle glo brig Ffos-y-frân.


**Wrth i Last Energy barhau i osod technoleg arbrofol wrth galon cymoedd de Cymru, rhaid i ni uno i wrthwynebu'r cynlluniau hyn ac atal Cymru rhag mynd yn faes profi pŵer niwclear.**

**BRIAN JONES a DYLAN LEWIS-ROWLANDS**



# NID YW NIWCLEAR YR ATEB
# Nuclear is not the solution

**The folly of nuclear power in the age of climate change**
**Gan MV Ramana**
**Verso, 2024**
**273tt (Saesneg)**
**ISBN 1804290009**
**£20**




Mae'r gyfrol glir a hygyrch hon yn amlinellu'r hyn a ddywed ar ei chlawr: pam fod ynni niwclear nid yn unig yn amherthnasol i'r hyn a honnir am ei rôl mewn lliniaru newid yn yr hinsawdd, ac yn wir yn llesteirio ymdrechion o'r fath, ond sut y mae'n gwneud elw i gwmnïau preifat a'r diwydiant arfau niwclear, ar draul pobl, yr amgylchedd a dyfodol ein plant.

Ar adeg pan fo'r diwydiant niwclear yn prysur golli'r dadleuon economaidd a gwyrdd, yn wyneb cynnydd byd-eang yn y defnydd o ynni adnewyddadwy mwy diogel, cyflymach a rhatach, rhaid tybio pam. Mae llyfr yr Athro Ramana yn ein helpu i ddeall y berthynas rhwng pŵer niwclear a phŵer yn gyffredinol. Mae'n dyfynnu Julie Wilson, o'i llyfr, *Neoliberalism*: "Mae'r syniad yn syml: crynhoir cyfoeth a phŵer gan nifer bach wrth amddifadu – hynny yw, dwyn oddi wrth – y boblogaeth yn gyffredinol." Yn yr achos hwn, nid dim ond ein tir a'n harian sy'n cael eu dwyn i sybsideiddio'r diwydiannau hyn, ond ein dyfodol. Eglura Pofessor Ramana, "Oherwydd bod elw yn flaenoriaeth, yn aml mae cydlifiad buddiannau rhwng perchnogion gweithfeydd niwclear a gweithfeydd tanwydd ffosil, sef yr un endidau yn aml."

Dydy'r ddelwedd "lân, werdd" y ceisia'r lobi niwclear guddio y tu ôl iddi yn golygu dim. Ond dyma'r endidau a gefnogir bellach gan Keir Starmer a'i lywodraeth, yn enw twf – diwydiannau diffygiol a di-fudd mewn oes o newid yn yr hinsawdd.

**LINDA ROGERS**





## Selwyn Williams
## 1945-2025

Ffarweliwyd â Sel Williams o Lan Ffestiniog ym mis Chwefror eleni. Mae'n amhosib gwerthfawrogi Sel mewn ychydig eiriau, ond gallwn ddweud ein bod wedi ffarwelio ag un o'r eneidiau prin hynny a fedrai gynnig gobaith a gweledigaeth am fyd heddychlon.

Treuliodd oes yn brwydro dros ei gyd-eneidiau, dros y gweithwyr, dros heddwch, dros gyfartaledd, dros gydweithio rhyngwladol a thros y Gymraeg; brwydrodd yn erbyn casineb, rhyfel, cyfalafiaeth, ffasgaeth a gormes. Ond bob tro mor dyner yn ei ymwneud â'i gyd-fforddolion.

Gan bwysleisio brawdoliaeth ymhobman, gwnaeth hyn yn ymarferol drwy ei waith efo Cwmni Bro Ffestiniog, sydd wedi dangos sut y gall cyrff cymunedol gydweithio i drawsnewid economi leol, ac yna ymestyn hyn drwy Wynedd drwy Cymunedoli Cyf. Ei freuddwyd oedd ymestyn hyn drwy Gymru gyfan, gan drawsnewid ein heconomi o ddibyniaeth ar gyfalafiaeth – gan gynnwys y diwydiant arfau – at fod yn hunan-gynhaliol.

Cefnogai PAWB a CADNO yn eu brwydr yn erbyn niwclear.

Roedd yn weithgar ym mudiad Cymru-Ciwba, a groesawodd Aleida Guevara, merch Che, i Ddinbych yn 2017.

Roedd yn gyfaill triw, yn sgwrsiwr difyr, ac yn dynnwr coes – ac yn ddieithriad yn gwisgo coch y sosialydd!

Bydd bwlch enfawr ar ei ôl, a bydd ei waddol yn parhau.

**ROBAT IDRIS**



## Dafydd Elis Thomas 1946-2025

Roedd Dafydd Elis Thomas nid yn unig yn ffigwr allweddol yng ngwleidyddiaeth Cymru ond hefyd yn ei mudiad heddwch. Roedd yn adnabyddus am ei allu i estyn allan at y rai nad oeddent yn gefnogwyr traddodiadol y Blaid, a chreu cynghrair ar y chwith ar draws Cymru, a oedd yn cynnwys CND Cymru.

Roedd yn aelod o'r Comisiwn Amddiffyn Amgen a gyhoeddodd y ddogfen arloesol *Without the Bomb – Non-nuclear Defence Policies for Britain* yn 1985. Heriai ac ysbrydolai bobl i'r un graddau.

Siaradai'n ddi-flewyn-ar-dafod yn erbyn arfau niwclear, gan ddatgan na fyddai'r Blaid yn cydweithredu â phlaid a gefnogai adnewyddu Trident.

Yn ei araith yn y gynhadledd fel Llywydd yn 1989 dywedodd mai cael gwared ar arfau dinistr torfol oedd yr her amgylcheddol bwysicaf a'n hwynebai. Aeth ymlaen i ddatgan mai hunaniaeth cenedl lai "…yw'r ffordd a fydd yn arwain at ryddid gweithredu pobl Cymru, i amddiffyn ein rhan ni o'r byd bregus hwn, i weithio i wneud ein Cymru ddi-niwclear yn realiti i bawb yn Ewrop…"

Tra'n llywydd y Blaid, bu'n arwain ac yn siarad yn y rali yn erbyn y radar arfaethedig yn Nhyddewi yn 1990, a ddenodd dros ddwy fil o bobl – adlais o ymgyrchu PARC yn erbyn DARC heddiw.

Y cyn-weinidog Cymreig **Rhodri Glyn Thomas** oedd Cadeirydd CND Cymru pan oedd Dafydd yn fwyaf gweithgar yn y mudiad heddwch. Ysgrifennodd:

"Dwi'n cofio Dafydd yn dweud wrthyf yn gynnar yn ein cyfeillgarwch y rheolid ei weithgareddau gwleidyddol gan foeseg sefyllfa. Tynnodd peryglon cynyddol rhyfel niwclear ei sylw at CND a sefydlu CND Cymru. Yn ystod streic y glowyr ceisiodd ffurfio clymblaid sosialaidd i frwydro dros hawliau gweithwyr. Bu'r ymgyrch dros iawndal i weithwyr llechi wedyn, a hyd yn oed achos Gweriniaethol Iwerddon Bobby Sands. Fel Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, troes ei sylw at yr angen am grwsâd gan holl boblogaeth Cymru i gefnogi hyrwyddo'r iaith ac yn olaf, y frwydr gyfansoddiadol i ddatblygu'r Cynulliad yn senedd ddeddfwriaethol gyflawn. Parhaodd yr holl achosion hyn yn agos at galon Dafydd; dim ond mater o'r amser a'r amgylchiadau lle teimlai y gallai wneud gwahaniaeth oedd hi. Rydym ni yn CND Cymru yn ddiolchgar iddo am byth am ei gefnogaeth a'i waith ar ein rhan".

**JILL EVANS**



# CND CYMRU

**Mae CND Cymru'n ymgyrchu ochr yn ochr â llu o fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd dros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd, ac i waredu Prydain a'r byd o arfau dinistr torfol.**

| | |
|---|---|
| **gwefan** | *www.cndcymru.org* |
| **e-bost** | *heddwch@cndcymru.org* |
| **instagram** | *@cndcymru* |
| **gweplyfr** | *www.facebook.com/cndcymru/* |
| **Bluesky** | *@cndcymru* |

## YMUNWCH Â NI NAWR!

*https://www.cndcymru.org/cy/cymryd-rhan/*

O dan 25? Hawdd! Gallwch ymuno â ni yn rhad ac am ddim ar-lein a lawrlwytho Heddwch o'r wefan.

## CYSYLLTIADAU

**Cadeirydd**
Mabon ap Gwynfor *mabonapgwynfor@gmail.com*

**Is-gadeiryddion**
Jill Evans *jillrhondda@yahoo.co.uk*
Brian Jones *brian.jones@phonecoop.coop*
Beth Winter *beth@bethwinter.wales*

**Trysorydd/Aelodaeth**
Michael Freeman *aelodaeth@cndcymru.org*
9 Bryn Briallu, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SE

**Ysgrifennydd Cenedlaethol** Y Wasg/Cyfathrebu
Dylan Lewis-Rowlands *heddwch@cndcymru.org*

**Pwyllgor Gwaith**
Peter Adamson,
Sam Bannon *Heddwch ar Waith*,
Jill Gough *Cyfryngau Cymdeithasol*,
Awel Irene, Alison Lochhead,
Jon Plumpton,
Linda Rogers,
Bethan Siân *Academi Heddwch*,
Philip Steele *Golygydd Heddwch*

**Cysylltiadau**
Carol Jenkins *Cymdeithas y Cymod*
Dylan Morgan *PAWB-Cadno*

**Cynrychiolwyr, Cyngor CND Prydain**
Dylan Lewis-Rowlands
Linda Rogers

## HEDDWCH

**yw cylchgrawn Ymgyrch Cymru dros Ddiarfogi Niwclear (CND Cymru). Gellir ei ddarllen ar-lein hefyd, ynghyd ag ôl-rifynnau yn *www.cndcymru.org***

**Golygydd:** Philip Steele
*phil_steele@btinternet.com*
**Cyfieithydd:** Siân Edwards
*siandefynnog@hotmail.co.uk*
**Dylunydd:** Tom Pollock
*tom@excellent-design.co.uk*
Argraffwyd gan **Serol Print**, Castell-nedd 2025
Gwaith celf
t2 Dai Owen,
t10 Ruth Jên Evans

Nid yw cynnwys *Heddwch* o angenrhaid yn adlewyrchu barn neu bolisïau CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Da chi, anfonwch unrhyw sylw, cyfraniad, llythyr neu ddyddiadau digwyddiadau at y golygydd.

Bydd rhifyn nesaf *HEDDWCH* yn ymddangos ym mis Awst 2025.

